FFURFLEN RHW26

## HYSBYSIAD O DYNNU YN ÔL HYSBYSIAD TERFYNU O DAN GYMAL TERFYNU'R LANDLORD: CONTRACT SAFONOL CYFNOD PENODOL

*Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract o dan adran 201(3) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod yr hysbysiad a roddwyd yn flaenorol yn unol â chymal terfynu'r landlord wedi ei dynnu yn ôl.*

| **Rhan A: Landlord** | **Rhan B: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract** |
|---|---|
| Enw:<br><br>Cyfeiriad: | Enw(au): |

| **Rhan C: Annedd** |
|---|
| Cyfeiriad: |

| **Rhan D: Tynnu Hysbysiad i Ildio Meddiant yn ôl** |
|---|
| Ar [*dyddiad*] ………………………… rhoddodd y landlord hysbysiad, yn unol â chymal terfynu'r landlord yn y contract meddiannaeth, ei bod yn ofynnol i chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, ildio meddiant o'r annedd uchod ar [*dyddiad*] …………………………<br><br>Mae'r landlord yn awr yn rhoi hysbysiad pellach o dan adran 201(3) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod yr hysbysiad blaenorol y cyfeirir ato uchod wedi ei dynnu yn ôl. Os rhoddir yr hysbysiad hwn **ar ôl** 28 o ddiwrnodau o ddyddiad yr hysbysiad blaenorol, fe gewch chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, wrthwynebu ei dynnu yn ôl.<br><br>Rhaid i'r hysbysiad hwn gael ei roi cyn i'r contract meddiannaeth ddod i ben. |

| **Rhan E: Hawl i Wrthwynebu Tynnu'r Hysbysiad yn Ôl**<br>*Ticiwch fel y bo'n gymwys.* | |
|---|---|
| ☐ | Mae'r hysbysiad hwn wedi ei ddarparu **yn ystod** yr 28 o ddiwrnodau o ddyddiad yr hysbysiad blaenorol o dan adran 194 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. **Ni chewch chi**, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, wrthwynebu tynnu'r hysbysiad hwnnw yn ôl. |
| ☐ | Mae'r hysbysiad hwn wedi ei ddarparu **ar ôl** 28 o ddiwrnodau o ddyddiad yr hysbysiad blaenorol o dan adran 194 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Cewch chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, wrthwynebu tynnu'r hysbysiad hwnnw yn ôl. Rhaid i unrhyw wrthwynebiad fod yn ysgrifenedig a rhaid ei ddyroddi i'r landlord cyn diwedd cyfnod rhesymol. |

| **Rhan F: Llofnod** | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:<br>……………………………… | Dyddiad:<br>……………………………… |